

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 44/2020

DYDDIAD CYHOEDDI: 09/07/2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg Traciwr COVID-19 ar gyfer Defnyddwyr Twristiaeth y DU: adroddiad proffil Cymru 2020 (Wythnosau 1 – 4)

Gorffennaf 2020

ISBN digidol **978-1-80038-760-7**

© Hawlfraint y Goron

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Arolwg Traciwr COVID-19 ar gyfer Defnyddwyr Twristiaeth y DU: adroddiad proffil Cymru 2020 (Wythnosau 1 – 4)
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 44/2020.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-tracio-defnyddwyr-twristiaeth-covid-19-proffil-cymru-18-mai-i-12-mehefin-2020>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Canolfan QED, Ystad Trefforest
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru



Cyflwyniad



Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg wythnosol Covid-19 i dracio barn defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon sy'n ymwneud â theithio ar hyn o bryd a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn rhoi sylw i: tebygolrwydd preswylwyr o'r DU yn teithio; pryd a ble y maent yn bwriadu mynd; manylion penodol trip fel mathau o lety a gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn chwilio amdano o'r sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl o 1,500 o oedolion 16+ oed cynrychioliadol genedlaethol 16+ oed, gyda hwb i drigolion yr Alban a Chymru i ddarparu samplau wythnosol cadarn. Ailadroddir yr arolwg dros gyfnod o 13 wythnos gyda'r wythnos gyntaf ar yr wythnos yn dechrau 18 Mai.

Seilir y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn ar werth y data yn y pedair wythnos gyntaf. Mae hyn yn seiliedig ar waith maes sy'n digwydd yn ystod y dyddiadau canlynol:

18-22 Mai; 25-29 Mai; 1-5 Mehefin; 8-12 Mehefin

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn edrychwn ar broffiliau ac agweddau nifer o gynulleidfaoedd ar wahân:

Bwriadwyr yr haf: Aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Mehefin a mis Medi eleni (21% o boblogaeth y DU).

Bwriadwyr y gaeaf: Aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021 (19% o boblogaeth y DU).

Er mwyn cyflwyno proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

Cyn-nythwyr: 16-34 oed heb blant yn y cartref

Teuluoedd: 16-64 oed gyda phlant yn y cartref

Annibynwyr hŷn: 35-64 oed heb blant yn y cartref

Oedran ymddeol: 65+ oed.

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn hwyluso'r dadansoddi defnyddir y diffiniadau llety canlynol:

Gwesty/Motél/Tafarndy

Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy

hunanddarpar masnachol: Fflat/Gwesty fflatiau gwyliau rhent neu gartref gwyliau rhent

Cartref preifat: Ail gartref/timeshare neu gartref ffrind/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar y sylfaen fasnachol (e.e. Airbnb)

Carafán/Gwersylla/Glampio: Carafán Deithiol neu Gerbyd Gwersylla/Cartref Modur neu Garafán Sefydlog neu Babell neu Glampio/Amgen

Llety arall: Hostel neu fath arall o lety

Er mwyn galluogi dadansoddi gyda meintiau sylfaen cadarn, mewn rhai lleoedd unwyd y mathau o gyrchfannau fel a ganlyn:

- **Cyrchfannau gwledig Cymru:** Cefn gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau
- **Cyrchfannau glan môr Cymru:** Morlin gwledig + tref glan môr traddodiadol/arfordirol

Canfyddiadau allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Barn gyffredinol yn y farchnad gwyliau byr a gwyliau yn y DU

1. Adeg yr arolwg rhwng canol mis Mai a chanol mis Mehefin, cymerir gofal nodedig ynghylch cynnal gweithgaredd hamdden ymhlith preswylwyr o'r DU a Chymru. Er bod mwyafrif yn ystyried eu hunain yn gyfforddus yn 'mynd am dro mewn parc gwledig/llwybr lleol', dim ond lleiafrif sy'n teimlo'n gyfforddus yn gwneud gweithgareddau fel 'siopa yn eich canolfan siopa leol', 'bwyta mewn bwyty' a 'theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus'.
2. Adlewyrchir cymryd gofal hefyd mewn ymddygiad archebu gwyliau. Lleiafrif yn unig sy'n teimlo'n hyderus y byddent yn gallu mynd ar wyliau yn y DU neu wyliau byr ym mis Gorffennaf neu fis Awst eleni, ac er bod hyder yn codi ar gyfer teithiau ym mis Medi, mae'r gyfran sy'n hyderus yn parhau i fod yn is na hanner. Cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth, llai o gyfleoedd i fwyta/yfed allan, pryderon ynghylch dal COVID-19 a llai o bethau i'w gwneud, yw'r prif resymau dros ddiffyg hyder yn y gallu i fynd ar daith yn ystod misoedd yr haf.
3. Adlewyrchir diffyg hyder yn y teithiau a ragwelir yn y DU eleni, a fydd yn lleihau o gymharu â'r arferol.
4. Mae preswylwyr o Gymru yn sylweddol llai hyderus ac yn fwy gofalus na phreswylwyr o'r DU, ac maent yn fwy tebygol o ddyfynnu cyfyngiadau'r llywodraeth fel y prif reswm am hyn.
5. Mae 21% o breswylwyr o'r DU yn debygol o fynd ar wyliau haf yn y DU eleni, o'i gymharu â 17% o breswylwyr o Gymru. O'r rhain, mae tua hanner ar fin mynd ar sawl trip eleni. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif wedi cynllunio nac archebu eu trip eto gan awgrymu bod cyfle o hyd i gyrchfannau sicrhau eu diddordeb.
6. Dim ond ychydig o gynnydd sydd wedi bod mewn bwriadau gwyliau ers cyfnod yr arolwg ac mae patrwm y galw yn parhau i fod yn debyg i'r hyn a adroddir yma.

Canfyddiadau allweddol (2)

Proffiliau Ymwelwyr a Thripiâu i Gymru

1. Ymhlith preswylwyr o'r DU sy'n cynllunio gwyliau domestig yr haf hwn (rhwng mis Mehefin a mis Medi), Cymru yw'r cyrchfan rhif tri, y tu ôl i'r Alban a De-orllewin Lloegr. Ymhlith preswylwyr o Gymru sy'n cynllunio ar gyfer trip yr haf hwn, Cymru yw'r gyrcfan fwyaf blaenllaw ac yna De-orllewin Lloegr.
2. Preswylwyr o Gymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr sydd fwyaf tebygol o ymweld â Chymru yr haf hwn. Mae yna ddiddordeb hefyd gan oddeutu 1 o bob 10 o ranbarthau poblog iawn y De-ddwyrain a Llundain. Mae'n werth nodi bod Cymru'n mynegeoio ychydig yn is na rhai rhannau eraill o'r DU ar gyfer denu ymwelwyr o'u 'rhanbarth cartref'.
3. Disgwylir i Gymru ddenu ystod o fathau o ymwelwyr eleni. Mae teuluoedd yn gyfran uwch o ymwelwyr arfaethedig â Chymru dros gyfnod yr haf. Er bod grwpiau oedran hŷn sydd wedi ymddeol yn llai tebygol o fod yn mynd ar deithiau ledled y DU, mae lefelau uwch na'r cyffredin yn edrych i ymweld â Chymru yn yr haf. Mae Annibynwyr Hŷn a Chyn-nythwyr yn gyfran uwch o bobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn y gaeaf.
4. Mae dewis cyrchfan yn dibynnu i raddau helaeth ar agosrwydd at fan preswyllo gyda darpar ymwelwyr yn dewis cyrchfannau sy'n agos. Mae Gogledd Cymru yn parhau i fod yn boblogaidd i ymwelwyr haf a gaeaf â Chymru sy'n byw dros y ffin yn Lloegr, tra bod Gorllewin Cymru yn cael ei ffafrio gan ymwelwyr sy'n byw yng Nghymru.
5. Mae bwriadwyr i Gymru yn bwriadu dod i Gymru ar gyfer ystod o wyliau amrywiol, ond 'cefn gwlad neu bentref', 'tref arfordirol/glan môr traddodiadol' ac 'arfordir gwledig' yw'r tri uchaf yn yr haf. Mae 'mynyddoedd neu fryniau' yn bedwerydd ond maent yn sylweddol uwch na theithiau haf i'r DU ar y cyfan.
6. Mae tua 1 o bob 4 ymwelydd â Chymru yn yr haf a'r gaeaf yn debygol o deithio gyda phlentyn neu oedolyn ifanc. Mae 1 o bob 7 nodedig yn bwriadu ymweld ag aelodau eraill o'r teulu gan awgrymu y gallai teithiau aml-genhedlaeth fod yn bosiblwydd. Mae ymwelwyr sydd â phlant ac aelodau eraill o'r teulu yn fwyaf tebygol o fynd ar dripiâu i gyrcfannau arfordirol/glan môr Cymru.

Canfyddiadau allweddol (3)

Llety ac Archebu

1. Mae hunanddarpar masnachol, carafán/gwersylla a chartref preifat yn dri chategori llety a ffefrir ar gyfer tripiâu i Gymru yr haf hwn, ac yna gwestai a thai llety/gwely a brecwast. O'r opsiynau gwersylla, carafanau statig, pebyll a charafanau teithiol yw'r tri uchaf.
2. Mae ymwelwyr i Gymru yn yr haf a'r gaeaf yn fwyaf tebygol o archebu eu llety yn uniongyrchol gyda darparwr, ac yna Asiant Teithio Ar-lein, gwefan homestay a gwefan asiant teithio traddodiadol. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl cyfnod bywyd, gan dynnu sylw at yr angen i ddarparwyr llety gynnig ystod o opsiynau archebu.
3. Mae hanner y bobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn yr haf yn disgwyl i'w trip fod yn ymlau o 4+ noson o'i gymharu ag ychydig dros ddwy ran o bump yn disgwyl iddo fod yn ymlau byr. Yn ystod misoedd y gaeaf, disgwylir i fwyaf y teithiau fod yn ymlau byr.

Gwariant Ymwelwyr

1. Y gwariant a ragwelir ar gyfartaledd ar gyfer tripiâu i Gymru (haf a gaeaf gyda'i gilydd) yw £512 fesul parti, sy'n sylweddol is ar gyfartaledd na chyfartaledd y DU ar y cyfan (£621), er gwaethaf cynllunio tripiâu ychydig yn hirach.
2. Gallai'r gwariant cyfartalog is fod yn adlewyrchu'r bwriad i ymweld â chyrchfannau gwledig a glan môr, defnyddio cartrefi preifat a charafanau a gwersylla, gyda Chymru yn cynnig opsiwn cymharol fforddiadwy i lawer o deithwyr sy'n ymwybodol o'r gyllideb.
3. Mae bwriadwyr yr haf i Gymru yn sylweddol fwy tebygol o nodi nad effeithiwyd arnynt yn ariannol neu eu bod yn well eu byd nag o'r blaen. Fodd bynnag, mae pobl sy'n nodi bod angen iddynt fod yn ofalus â'u cyllid yn gyfran sylweddol o ymwelwyr sy'n bwriadu ymweld â Chymru a gallai gwyliau fforddiadwy fod yn flaenoriaeth benodol i'r teithwyr hyn.
4. Amcangyfrifir bod gwariant cyfartalog tripiâu yn uwch yng Nghymru yng nghyfnod y gaeaf, gan adlewyrchu'r gyfran uwch o raddau cymdeithasol AB ac annibynwyr hŷn sy'n bwriadu ymweld yn ystod misoedd y gaeaf.


Proffilio'r farchnad gwyliau byr a gwyliau



Lefel cyfforddusrwydd yn ymgymryd â gweithgareddau gyda 'chyfartaledd cyfforddusrwydd'

- Mae preswylwyr o'r DU a phreswylwyr o Gymru yn dangos patrymau cyfforddusrwydd tebyg wrth ymgymryd â gweithgareddau bob dydd – y ddau yn fwyaf cyfforddus gyda 'mynd am dro mewn parc gwledig/llwybr lleol', ac yna 'siopa yn eich canolfan siopa leol', 'bwyta mewn bwyty' a 'theithio drwy gludiant lleol'. Fodd bynnag, mae preswylwyr o Gymru yn llai cyfforddus yn gwneud yr holl weithgareddau na phreswylwyr o'r DU.


Ffigur 1. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal ystod o weithgareddau ar wahân ac wedi'u cyfuno, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Wythnosau 1 i 4, y DU a Chymru



Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Dim ond lleiafrif o breswylwyr o'r DU a phreswylwyr o Gymru sy'n hyderus y bydden nhw'n gallu mynd ar wyliau byr yn y DU ym mis Mehefin, mis Gorffennaf neu fis Awst eleni. Mae hyder yn codi'n eithaf sylweddol o fis Medi tuag at ddiwedd y flwyddyn ac i mewn i 2021.
- Fodd bynnag, mae hyder ymysg preswylwyr o Gymru yn sylweddol is na hyder preswylwyr o'r DU, ac mae'r bwch yn ehangu o fis Hydref ymlaen.

Ffigur 2. Hyder mewn cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol, Canran net yn hyderus iawn a gweddol hyderus, Wythnosau 1 i 4, y DU a Chymru




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chyfnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn? Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n = 7,008; Holl breswylwyr o Gymru n = 766

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus yn cymryd tripiâu haf yn y DU

- 'Cyfyngiadau ar deithio gan y Llywodraeth' yw'r prif reswm dros ddiffyg hyder ynghylch mynd ar drip rhwng mis Mehefin a mis Medi ymhlith preswylwyr o'r DU a phreswylwyr o Gymru, ond mae'n fwy o lawer ymhlith preswylwyr o Gymru. Mae preswylwyr o Gymru hefyd yn mynegeo'n uwch ar gyfer datgan 'nid yw'n gyfrifol i deithio yn y cyfnod hwn'.
- Llai o gyfleoedd i fwya/yfed, dal COVID-19 a llai o bethau i'w gwneud/llefydd i ymweld â nhw yn bryderon pellach i drigolion o'r DU a Chymru.

Ffigur 3. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng mis Mehefin a mis Medi, Canran, Wythnosau 1 i 4, y DU a Chymru




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU rhwng mis Mehefin a mis Medi? Sylfaen: Amryfal bobl sy'n cymryd tripiâu n = 165; bwriadwyr yr haf n = 293; bwriadwyr y gaef n = 310; Rhai y gellir eu perswadio n = 209; Rhai nad ydynt wedi cynllunio n = 168

Hyder i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae'r patrwm o hyder cynyddol i gymryd triapiau yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn gymharol gyson ar draws y cyfnodau bywyd.
- Mae gan gyn-nythwyr a theuluoedd fwy o hyder i fynd ar drip yn yr haf.
- Mae hyder annibynnwyr hŷn yn cynyddu ar gyfer mynd ar drip yn ddiweddarach eleni.
- Mae oedrannau ymdddeol yn dangos llai o hyder i gymryd trip ar draws pob cyfnod eleni, yn sylweddol felly o fis Medi i fis Rhagfyr.

Ffigur 2b. Hyder mewn cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol yn ôl cyfnod bywyd. Canran net hyderus iawn a gweddol hyderus, Wythnosau 1 i 4, y DU




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chyfnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn?
Sylfaen: Cyn-nythwyr n=377, Teuluoedd n=358, Annibynnwyr hŷn n=377, Nythwyr Gwag n=214

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus am gymryd triapiau yn y DU rhwng mis Mehefin a mis Medi – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae amryw o resymau na fyddai gwahanol gyfnodau bywyd yn hyderus ynghylch mynd ar drip i'r DU rhwng mis Mehefin a mis Medi. Mynegai teuluoedd yn uwch ar 'llai o bethau i'w gwneud/llefydd i ymweld â nhw' a 'llai o gyfleoedd i fwyta/yfed allan'. I bobl o oed ymddeol, 'Rwy'n pryderu am ddal COVID-19' yw'r rheswm a roddwyd amlaf, a hwy yw'r lleiaf tebygol o ddweud 'cyllid personol'.
- Mae cyn-nythwyr yn fwyaf tebygol o ddweud 'nid yw'n gyfrifol teithio yn y cyfnod hwn' a nodi 'cyllid personol' fel rhwystr.

Ffigur 3b. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng mis Mehefin a mis Medi yn ôl cyfnod bywyd, Canran Wythnosau 1 i 4, y DU




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=327, Teuluoedd n=309, Annibynnwyr hŷn n=356, Nythwyr Gwag n=2177


Nifer y teithiau a ragwelwyd yn y DU eleni o'i gymharu â'r arferol

- Mae preswylwyr o'r DU a Chymru yn rhagweld 'gostyngiad net' yn nifer y gwyliau byr yn y DU eleni.
- Fodd bynnag, mae preswylwyr o Gymru yn llawer mwy tebygol na phreswylwyr o'r DU i nodi 'ddim yn gwybod' pan ofynnir iddynt ddatgan eu bwriad i nodi gwyliau byr neu wyliau domestig (26% o'i gymharu ag 20% ar gyfer gwyliau byr; 27% o'i gymharu â 22% ar gyfer gwyliau 4+ noson).

Ffigur 4. Nifer gwyliau byr yn y DU (1-3 noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnos 1-4, y DU a Chymru




Ffigur 5. Nifer gwyliau yn y DU (4+ noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnos 5, y DU a Chymru




Nifer y triplau tramor a ragwelwyd eleni o'i gymharu â'r arferol

- Mae preswylwyr o'r DU a Chymru hefyd yn rhagweld gostyngiad net mawr mewn gwyliau byr a gwyliau tramor eleni. Mae'r gostyngiad net mewn triplau dramor yn fwy o lawer na'r gostyngiad net mewn triplau a ragwelwyd ar gyfer y DU.
- Fel gyda thriplau i'r DU, mae preswylwyr o Gymru yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod 'ddim yn gwybod' pan ofynnir iddynt am fwriad trip dramor.

Ffigur 6. Niferyr gwyliau byr DRAMOR (1-3 noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru




Ffigur 7. Niferyr gwyliau DRAMOR (4+ noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnos 5, y DU a Chymru




Pryd y rhagwelir mynd ar wyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Mae 17% o breswylwyr o Gymru yn rhagweld y bydd gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn digwydd yr haf hwn (rhwng mis Gorffennaf a mis Medi), sy'n llawer is na chyfran o breswylwyr y DU sy'n bwriadu gwneud hynny.
- Mae 19% o breswylwyr o Gymru yn bwriadu cymryd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU y gaeaf hwn (rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021), yn union yr un fath â'r gyfran o breswylwyr o'r DU sy'n bwriadu gwneud hynny.
- Mae preswylwyr o Gymru yn llawer mwy tebygol na phreswylwyr o'r DU o ragweld mynd ar eu trip nesaf yn ystod Gwanwyn/Haf 2021, neu fod eisiau cymryd trip ond heb wybod pryd y byddant yn mynd.

Ffigur 8. Pryd y rhagwelir MYND ar y trip nesaf yn y DU, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru



Ffigur 9. Cyfran bwriadwyr yr haf sy'n bwriadu mynd ar fwy nag un trip eleni, Canran Wythnosau 1-4, y DU




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn?

Sylfaen: Pob ymatebydd. Wythnosau 1-4 poblogaeth y DU n = 7,008; Poblogaeth Cymru n = 766


P'un a yw gwyliau neu wyliau byr yn y DU wedi'u cynllunio neu wedi'u harchebu

- Mae Bwriadwyr i Gymru'n llawer llai tebygol na'r DU o fod eisoes wedi trefnu eu gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU, yn ystod misoedd yr haf a'r gaeaf.

Ffigur 10. Cyfran y rhai sydd eisoes wedi cynllunio eu trip, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru



Ffigur 11. Cyfran y Bwriadwyr sydd eisoes wedi archebu eu trip, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Sylfaen: Pob ymatebydd. Wythnosau 1-4 bwriadwyr yr haf y DU n = 1,404; Bwriadwyr haf cynhwysol i Gymru n = 164; Bwriadwyr y gaeaf i'r DU n = 1353; Bwriadwyr gaeaf cynhwysol i Gymru n = 137 *Sylwch: Cynhaliwyd yr ymchwiliad rhwng 18 Mai a 12 Mehefin felly mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn dangynrychiolaeth o'r archebion cyfredol.

Lle cynllunnir aros ar drip haf nesaf yn y DU

- Mae 11% o fwriadwyr yr haf i'r DU yn bwriadu mynd i Gymru am eu gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU, y trydydd cyrchfan fwyaf dewisol y tu ôl i'r De-orllewin (19%) a'r Alban (13%).
- Ymhlith preswylwyr o Gymru, Cymru yw'r gyrchfan fwyaf a ffefrir, gyda 31% yn bwriadu mynd ar drip yno, er mai ychydig o flaen De-Orllewin Lloegr ar 28% yw hyn.
- Mae'n werth nodi bod traean o'r bobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yr haf hwn, hefyd yn ystyried ymweld â rhywle arall, De-orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Humber y ddau ddewis mwyaf poblogaidd.


Ffigur 12. Lle cynllunnir aros ar drip dros nos nesaf yn y DU ar gyfer bwriadwyr yr haf, Canran Wythnosau 1-4, preswylwyr o'r DU a Chymru



CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <INSERT MONTH FROM VB2(III)>?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU rhwng bwriadwyr yr haf i'r DU n = 1,404, Bwriadwyr yr haf sy'n breswylwyr o Gymru n = 138

Lle cynllunnir aros ar wylliau byr neu wylliau nesaf yn ystod y gaeaf yn y DU

- Ymysg bwriadwyr y gaeaf i'r DU, Cymru yw'r 5ed gyrchfan fwyaf dewisol y tu ôl i'r De-orllewin, yr Alban, Llundain a Gogledd-orllewin Lloegr.
- Fel yn ystod misoedd yr haf, Cymru yw'r gyrchfan a ffeirir gan drigolion o Gymru ar gyfer y gaeaf, ac fe'i dilynwyd eto gan Dde-orllewin Lloegr.
- Fel yn ystod misoedd yr haf mae'n werth nodi bod tua thraean (37%) o Fwriadwyr y gaeaf i Gymru hefyd yn ystyried cyrchfan ddomestig arall.




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <INSERT MONTH FROM VB2(III)>?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wylliau byr yn y DU yn y gaeaf Bwriadwyr y Gaeaf n=1,353 Bwriadwyr y gaeaf sy'n Breswylwyr o Gymru n=144

Y bwriad i aros yng Nghymru yn ôl rhanbarth preswyl

- Preswylwyr o Gymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr sydd fwyaf tebygol o fod yn ystyried gwyliau haf neu wyliau byr yng Nghymru eleni. Mae tua 1 o bob 10 o'r preswylwyr mewn ardaloedd poblog iawn fel y De-ddwyrain a Llundain hefyd yn ystyried trip haf i Gymru.
- Yn ystod misoedd y gaeaf, preswylwyr o Gymru a De-orllewin Lloegr yw'r rhai mwyaf tebygol o ymweld.

Ffigur 14. Cyfran y bwriadwyr sy'n cynllunio aros yng Nghymru ar wyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU yn ôl rhanbarth preswyl, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru



CVB4b. Ble yn y DU ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hyn? Ble rydych chi'n byw?


Sylfaen: Pob preswlydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU rhwng mis Mehefin a mis Medi/mis Hydref i fis Mawrth. Pob un n=1,453 preswlydd ym mhob rhanbarth De-orllewin Lloegr n=202/98; Yr Alban n=175/173; Cymru n=105/144; Gogledd-orllewin Lloegr n=113/107; Llundain n=105/216; Swydd Efrog a Humber n=77/112; De-ddwyrain Lloegr n=95/175; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=44*/107; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=36*/85; *Meintiau sylfaen yn isel – i'w drin â gofal.

Rhai rhanbarthau wedi'u heithrio oherwydd meintiau sylfaen isel

Demograffeg bwriadwyr o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol

- Mae teuluoedd yn ffurfio cyfran uwch o bobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn ystod cyfnodau'r haf a'r gaeaf nag y maent ymhlith poblogaeth o'r DU. Mae Annibynnwyr Hŷn yn ffurfio cyfran is sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn yr haf, er eu bod yn cynyddu i gyfartaledd ar gyfer ymweliadau â Chymru yn y gaeaf.
- Mae ymwelwyr Oedran Ymddeol yn fwy tebygol o fwriadu ymweld â Chymru yn yr haf nag yn y DU yn gyffredinol. Mae Cyn-nythwyr yn ffurfio cyfran ychydig yn uwch o ymwelwyr i Gymru, yn gyson â darlun y DU.
- Mae mynegai bwriadwyr yr haf i Gymru yn sylweddol uwch ar raddau cymdeithasol C1C2 na'r boblogaeth, a bwriadwyr i'r DU ar y cyfan. Mae gan raddau cymdeithasol DE gynrychiolaeth dipyn yn is na phoblogaeth y DU, sy'n gyson â phatrymau bwriadwyr i'r DU. Mae graddau cymdeithasol AB yn ffurfio cyfran sylweddol uwch o ymwelwyr i Gymru yn y gaeaf.

Ffigur 15. Dadansoddiad o boblogaethau a bwriadwyr yn ôl cyfnod bywyd, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru



Ffigur 16. Dadansoddiad o boblogaethau a bwriadwyr yn ôl graddfa gymdeithasol, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru



Cyfnod bywyd a graddfa gymdeithasol gyfunol

- Mae teuluoedd CIC2 a theuluoedd AB ill dau yn mynegeoio'n uwch ymhlith bwriadwyr yr haf i Gymru nag a wnânt yn y boblogaeth gyffredinol, fel y mae Cyn-nythwyr C1C2.
- Mae teuluoedd C1C2 ac AB hefyd yn cael eu cynrychioli'n dda ymhlith bwriadwyr y gaeaf, er mai Annibynnwyr Hŷn C1C2 yw'r mwyaf yn y cyfnod amser hwn.

Tabl 1. Cyfnod bywyd a graddfa gymdeithasol gyfunol, Canran Wythnosau 1-4, y DU


	Poblogaeth y DU	Bwriadwyr yr haf i Gymru	Bwriadwyr y gaeaf i Gymru
Oed ymddeol - DE	10%	9%	4%
Oed ymddeol - C1C2	8%	12%	4%
Oed ymddeol - AB	4%	2%	6%
Annibynnwyr hŷn - DE	7%	4%	4%
Annibynnwyr hŷn - C1C2	19%	13%	20%
Annibynnwyr hŷn - AB	6%	6%	6%
Teuluoedd - DE	3%	2%	3%
Teuluoedd - C1C2	14%	17%	14%
Teuluoedd - AB	8%	12%	14%
Cyn-nythwyr - DE	5%	3%	7%
Cyn-nythwyr - C1C2	12%	16%	13%
Cyn-nythwyr - AB	5%	3%	5%

Ffynhonnell: cwestiynau demograffig. Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n=7008; Poblogaeth Cymru n=766; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=158; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n=137


Segmentau ariannol ac effaith ariannol COVID-19 ar fwriadwyr

- Mae effaith ariannol preswylwyr o Gymru o ganlyniad i COVID-19 yn gyson â phrofiad poblogaeth y DU.
- Fel gyda bwriadwyr i'r DU, mae bwriadwyr yr haf yn llawer mwy tebygol na phreswylwyr o ddweud nad ydynt wedi cael eu heffeithio'n ariannol neu eu bod yn well eu byd nag o'r blaen. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer bwriadwyr y gaeaf i Gymru, er i raddau llai.
- Mae gan bobl sy'n dweud bod angen iddynt fod yn ofalus gyda'u harian fwriad i na'r cyfartaledd i gymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU, ond mae'n dal i fod yn gyfran sylweddol o ymwelwyr sy'n bwriadu ymweld â Chymru a gall gwyliau fforddiadwy fod yn bryder penodol i'r teithwyr hyn.

Ffigur 17. Dadansoddiad o bobl yn ôl segmentau ariannol, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru



Ffigur 18. Effaith cyflogaeth ar fwriadwyr, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio'ch teimladau orau ar hyn o bryd? VB8b: Gan feddwl am eich gwaith a'ch amgylchiadau ariannol, pa un, os o gwbl, o'r canlynol sydd wedi digwydd i chi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19? Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n=7008; Poblogaeth Cymru n=766; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=158; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n=137

Ymddygiad at dripiâu



Lle cynllunnir aros yng Nghymru ar drip haf nesaf yng Nghymru

- Mae rhai gwahaniaethau amlwg mewn bwriadau i ymweld â gwahanol rannau o Gymru rhwng preswylwyr sy'n byw yng Nghymru a phobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru o'r DU gyfan.
- Eryri yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer holl fwriadwyr yr haf i Gymru, ac yna Llandudno a Bae Colwyn, a Sir Benfro.
- Ymysg y preswylwyr yng Nghymru sy'n cynllunio ar gyfer trip haf yng Nghymru, Sir Benfro a Bae Aberteifi/Ceredigion yw'r cyrchfannau mwyaf poblogaidd wedi'u dilyn gan Sir Gaerfyrddin.




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau nesaf neu'r gwyliau byr hwn?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Pob bwriadwr yr haf i Gymru n = 158; Bwriadwyr yr haf sy'n breswylwyr o Gymru n = 40 *;

Lle cynllunnir aros yng Nghymru ar drip gaeaf nesaf i Gymru

- Mae'r patrwm yn y gaeaf yn gymharol gyson â'r haf – cyrchfannau Gogledd Cymru fel Eryri a Llandudno/Bae Colwyn yw'r rhai a ffeirir ymhlith holl Fwriadwyr i Gymru, tra bod cyrchfannau Gorllewin Cymru fel Sir Benfro a Chanolbarth Cymru/Bannau Brycheiniog yn gyrcfannau mwy poblogaidd ymysg preswylwyr o Gymru.

Ffigur 20. Cyrcfhan wedi'i gynllunio ar gyfer trip nesaf i Gymru ar gyfer bwriadwyr y gaeaf, Canran, Wythnosau 1-4, y DU a Chymru




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Pob bwriadwr y gaeaf i Gymru n = 137; Bwriadwyr y gaeaf sy'n breswylwyr o Gymru n = 44 * * Meintiau sylfaen yn fach – dylid eu trin yn ddangosol yn unig

Lle cynllunnir aros yng Nghymru yn ystod gwyliau haf neu aeaf nesaf yng Nghymru – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae cyrchfannau ymweld o fewn Cymru'n amrywio ar draws cyfnodau bywyd – Mae cyn-nythwyr yn fwyaf tebygol o nodi eu bod yn bwriadu mynd i Eryri a Chaerdydd; mae teuluoedd fwyaf tebygol o ymweld ag Eryri, Gogledd-ddwyrain Cymru, Llandudno a Bae Colwyn a Bae Abertawe; Annibynnwyr Hŷn-Eryri, Canolbarth Cymru a Llandudno a Bae Colwyn; Nythwyr gwag - Eryri, Llandudno a Bae Colwyn ac Ynys Môn.

Ffigur 21. Cyrchfan cynlluniedig ar gyfer y daith nesaf i Gymru ar gyfer yr holl fwriadwyr yn ôl cam bywyd, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru, wedi'u graddio ar deuluoedd




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2021 Cyn-nythwyr n = 73; Teuluoedd n = 92; Annibynnwyr Hŷn n = 85; Nythwyr Gwag n = 45

Lle cynllunnir aros yng Nghymru ar wyliau byr neu wyliau haf neu aeaf nesaf i Gymru – yn ôl rhanbarth preswyl

- Mae'r rhan o Gymru y mae ymwelwyr yn debygol o ymweld â hi yn adlewyrchu'n fras eu rhanbarth gwreiddiol. Mae'r bwriadwyr o Ogledd-orllewin Lloegr yn fwyaf tebygol o ymweld â chyrchfannau Gogledd Cymru megis Eryri, Llandudno, Ynys Môn a Gogledd-ddwyrain Cymru.
- Mae bwriadwyr o Orllewin Canolbarth Lloegr yn debygol o ymweld ag amrywiaeth o gyrchfannau ledled Cymru, gan adlewyrchu eu pwyntiau mynediad eang.
- Mae preswylwyr Llundain yn debygol o ymweld â chymysgedd o gyrchfannau Gogledd a De Cymru – Mae Caerdydd, Bae Abertawe, Eryri ac Ynys Môn i gyd yn ymddangos yn eu pedwar uchaf. Ceir amrywiaeth tebyg ar gyfer ymwelwyr o Dde-ddwyrain Lloegr – mae Eryri, Canolbarth Cymru a Bae Ceredigion oll ymhlith y rhai uchaf.

Ffigur 22. Cyrchfan cynlluniedig ar gyfer y daith nesaf i Gymru ar gyfer yr holl fwriadwyr yn ôl rhanbarthau allweddol, Canran Wythnosau 1-4, y DU a Chymru, wedi'u graddio ar Ogledd-orllewin Lloegr



CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2021

Gorllewin Canolbarth Lloegr n=37*; Gogledd-orllewin Lloegr n=33*; De-ddwyrain Lloegr n=27*; Llundain n=32*. *Meintiau Sylfaen yn fach iawn. I'w ddefnyddio'n ddangosol yn unig.


Y math o gyrchfan ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Mae ymwelwyr i Gymru ym misoedd yr haf fwyaf tebygol o ymweld â chyrchfan cefn gwlad neu bentref, ac yna tref arfordirol/glan môr traddodiadol ac arfordir gwledig. Mae mynyddoedd neu fryniau yn debygol o gynhyrchu ymweliadau o tua 1 mewn 7, yn uwch na chyfartaledd y DU.
- Mae bwriadwyr y gaeaf yn fwy tebygol o lawer o geisio ymweld ag arfordir gwledig a mynyddoedd neu fryniau na bwriadwyr yr haf, a bwriadwyr y DU.
- Mae pobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn llai tebygol o ymweld â dinas neu dref fawr o'i gymharu â chyrchfannau eraill yn y DU, ac mae'r rhain yn gyfran gymharol fach o'r teithiau arfaethedig i Gymru.

Ffigur 23. Prif fath o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr yr haf i Gymru, Canran Wythnosau 1-4, y DU



Ffigur 24. Prif fath o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr y gaeaf i Gymru, Canran Wythnosau 1-4, y DU




CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU orau?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru'n unig n = 105; Bwriadwyr y gaeaf i Gymru'n unig n = 88

Dadansoddiad cyfnod bywyd bwriadwyr i Gymru - yn ôl y math o gyrchfan

- Mae'r mathau o gyrchfannau y bwriedir ymweld â nhw yng Nghymru yn amrywio yn ôl cyfnod bywyd.
- Mae ymwelwyr oedran ymddeol ac annibynnwyr hŷn yn fwyaf tebygol o ymweld â 'chyrchfannau glan môr/arfordirol' a 'chyrchfannau gwledig'.
- Teuluoedd sydd â'r gynrychiolaeth uchaf yng nghyrchfannau glan môr/arfordirol Cymru.
- Cyn-nythwyr sydd â'r gynrychiolaeth fwyaf yn ninasoedd Cymru a threfi mawr.

Ffigur25. Cyfnod bywyd bwriadwyr i Gymru yn ôl math o gyrchfan, Canran, Wythnosau 1-4, y DU



Cwestiynau demograffig a CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrchfannau glan môr Cymru (arfordir gwledig + tref glan môr/arfordirol draddodiadol) n = 154; Cyrchfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 158; Dinasoedd Cymru neu drefi mawr n = 46 ** Sylwch: meintiau sylfaen bach iawn – dylid eu trin yn ddangosol.

Graddfa gymdeithasol bwriadwyr i Gymru - yn ôl math o gyrchfan

- C1C2s sydd â'r gynrychiolaeth uchaf ar draws pob math o gyrchfan, er bod gan AB y gynrychiolaeth uchaf yn ninasoedd Cymru a threfi mawr.

Ffigur 26. Graddfa gymdeithasol bwriadwyr i Gymru fesul cyrchfan, Canran, Wythnosau 1-4, y DU




Cwestiynau demograffig a CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Ngymru rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrchfannau glan môr Cymru (arfordir gwledig + glan môr traddodiadol/tref arfordirol) n = 154; Cyrchfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 158; Dinasoedd Cymru neu drefi mawr n = 46 * * Sylwch: meintiau sylfaen bach iawn - dylech eu trin yn ddangosol.


Cyfansoddiad parti ymwelwyr ar gyfer gwyliau neu wyliau byr nesaf i Gymru

- Ar draws cyfnodau'r haf a'r gaeaf, mae'r partiön sy'n ymweld yn fwyaf tebygol o deithio i Gymru gyda'u partner, i'w ddilyn gan blant/wyrion/oedolion ifanc a chyfeillion. Mae'r patrwm yn gymharol gyson â'r darlun ymhlith y rhai yn y DU. Mae nifer uchel y cyfuniadau amrywiol o ymwelwyr teulu yn awgrymu y gallai triapiau aml-genhedlaeth fod yn opsiwn ar gyfer rhai o'r ddau gyfnod.
- Mae crwydrwyr sengl yn gyfran fach o'r bwriadwyr ymwelwyr i Gymru.
- Mae bron i un o bob deg bwriadwyr trip haf yn bwriadu teithio gyda anifail anwes.

Ffigur 27. Mae Parti o ymwelwyr yn gwneud i fyny am fwriadwyr yr haf i Gymru, Canran, Wythnosau 1-4, y DU



Ffigur 28. Mae Parti o ymwelwyr yn gwneud i fyny am fwriadwyr y gaeaf i Gymru, Canran, Wythnosau 1-4, y DU



CVB4d. Gyda phwy ydych chi'n debygol o fod yn treulio'ch gwyliau?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 105;
Bwriadwyr y gaeaf i Gymru'n unig n = 88 *Mae plentyn neu oedolion ifanc yn cynnwys ymatebwyr sy'n nodi 'plant', 'wyrion' a phobl ifanc 16-24 oed sy'n nodi y byddant yn teithio gyda'u rhieni.

Dadansoddiad o barti ymwelwyr i Gymru - yn ôl y math o gyrchfan

- Teithio i Gymru gyda phartner sydd â'r gynrychiolaeth uchaf ar draws cyrchfannau glan môr a gwledig, wedi'u dilyn gan blant neu oedolion ifanc.
- Plant neu oedolion ifanc sydd â'r gynrychiolaeth uchaf yng nghyrchfannau glan môr/arfordirol Cymru, fel y mae aelodau eraill o'r teulu, gan awgrymu bod y math hwn o leoliad yn cynnig potensial ar gyfer teithiau aml-genhedlaeth.
- Ffrindiau sydd â'r gynrychiolaeth fwyaf mewn cyrchfannau gwledig.

Tabl 2. Parti o ymwelwyr yn ôl math o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran, Wythnosau 1-4, y DU


	Bwriadwyr i Gymru Gyfan	Cyrchfannau Glan môr/Arfordirol Cymru	Cyrchfannau Gwledig Cymru
Eich partner	54%	50%	53%
Plant neu oedolion ifanc (16-24 oed)	26%	30%	22%
Ffrind/iau	18%	8%	21%
Gyda rhieni oedolion hŷn	5%	4%	3%
Aelod arall o'r teulu	17%	26%	8%
Anifeiliaid	8%	11%	9%
Byddaf yn teithio ar fy mhen fy hun	9%	6%	13%
Arall	3%	2%	4%

CVB4d. Gyda phwy ydych chi'n debygol o fod yn treulio'ch gwyliau? CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Cwestiynau demograffig a QVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich trip i'r DU orau? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio ar gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn unig rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrchfannau glan môr Cymru yn unig (arfordir gwledig + tref glan môr/arfordirol traddodiadol) n = 73; Cyrchfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 75 ;; Dinasoedd Cymru neu drefi mawr nas dangosir oherwydd meintiau sylfaen bach.


Y math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf i Gymru

- Mae ymwelwyr i Gymru yn bwriadu ymweld â chymysgedd o wahanol fathau o lety yr haf hwn, lle ar rent masnachol hunanddarpar, carafán/gwersylla, cartref preifat a gwestai oll yn opsiynau ar gyfer tua 3 o bob 10.
- O'r gaeaf ymlaen, cartref preifat yw'r opsiwn a ffeirir – mae hyn yn debygol o gael ei ysgogi gan gyfansoddiad annibynnwyr hŷn yng nghyfnod y gaeaf.
- Yn ôl y disgwyl, mae'n amlwg bod lefelau is o fwriad i aros mewn carafán a gwersylla yng nghyfnod y gaeaf.

Ffigur 29. Cynllunio llety ar gyfer aros ar drip dros nos nesaf yng Ngymru ar gyfer bwriadwyr yr haf, Canran, Wythnosau 1-4, y DU



Ffigur 30. Cynllunio llety ar gyfer aros ar drip dros nos nesaf yng Nghymru ar gyfer bwriadwyr y gaeaf, Canran, Wythnosau 1-4, y DU




CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 105; Bwriadwyr y gaeaf i Gymru yn unig n = 88 Llety masnachol: Fflat/fflat gwyliau rhent neu gartref gwyliau wedi'i rentu Cartref preifat: Ail gartref/cyfran amser neu gartref ffrindiau/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar Sylfaen fasnachol (e.e. Airbnb).


Y math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- O'r gwahanol opsiynau ar gyfer tripiâu gwersylla/carafanio, mae bwriadwyr yr haf i Gymru yn fwyaf tebygol o ragweld aros mewn carafán statig, yna pabell ac yna carafán deithiol. Mae bwriadwyr y gaeaf yn llai tebygol o aros mewn llety gwersylla/carafanio yn fwy cyffredinol.
- O'r dewisiadau llety mewn cartref preifat, mae rhaniad cymharol gyfartal rhwng cartref ffrindiau neu berthnasau a 'chartref rhywun arall ar Sylfaen fasnachol (e.e. Airbnb)' yn yr haf a'r gaeaf.

Ffigur 31. Math o lety gwersylla/carafanio y cynllunnir aros ynddo ar drip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran net Wythnosau 1-4 y DU



Ffigur 32. Math o lety cartref preifat y cynllunnir aros ynddo ar drip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran net Wythnosau 1-4 y DU



CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>?

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 102;

Bwriadwyr y gaeaf i Gymru yn unig n = 88

Llety dewisol bwriadwyr i Gymru - yn ôl y math o gyrchfan

- Mae cyrchfannau glan môr/arfordirol Cymru yn fwyaf tebygol o gynnwys arosiadau carafán/gwersylla ac arhosiadau cartref preifat. Ar gyfer gwyliau gwledig, rhentu masnachol a gwestai/motélau yw'r opsiynau a ffefrir

Tabl 3. Math o lety yn ôl math o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran Wythnosau 1-4, y DU


	Bwriadwyr i Gymru gyfan	Cyrchfannau Glan môr/Arfordirol	Cyrchfannau Gwledig Cymru
Carafán/Campio	26%	31%	21%
Cartref preifat	35%	31%	26%
Gwesty/motél/tafarndy	31%	22%	33%
Hunanddarpar masnachol	32%	26%	37%
Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy	19%	20%	10%
Arall	8%	4%	10%

CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>? A CVB5 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrchfannau Glan môr Cymru (arfordir gwledig + tref glan môr/arfordirol traddodiadol) n = 64; Cyrchfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 59; Ni ddangosir Dinasoedd Cymru neu drefi mawr oherwydd meintiau sylfaen bach.

Hyd a ragwelir ar gyfer cyfnod gwyliau i Gymru fesul cyfnod amser

- Mae triapiau i Gymru yn ystod misoedd yr haf yn fwy tebygol o fod yn wyliau o 4 + noson, o'i gymharu â theithiau gaeaf (50% o'i gymharu â 34%).
- Mae Cymru'n ail yn unig i Dde-orllewin Lloegr o ran cynhyrchu gwyliau hwy o 4+ noson yr haf hwn.

Ffigur 33. Hyd y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf i Gymru fesul cyfnod amser
Canran, Wythnosau 1-4, y DU



CVB3. Ydy'r trip nesaf hwn yn debygol o fod yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)?


